# MEMORANDWM ESBONIADOL I REOLIADAU LLYWODRAETHU YSGOLION A GYNHELIR (GOFYNION HYFFORDDI AR GYFER LLYWODRAETHWYR) (CYMRU) (DIWYGIO) 2021

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

## Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021.

Kirsty Williams
Y Gweinidog Addysg
23 Mawrth 2021

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013 ("Rheoliadau 2013") sy'n nodi'r gofynion hyfforddi ar gyfer llywodraethwyr ysgolion a gynhelir yng Nghymru.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dim.

## 3. Cefndir deddfwriaethol

Mae pwerau Gweinidogion Cymru i wneud y Rheoliadau hyn wedi'u cynnwys yn adrannau adran 22(3) a (4) a 32(2) o Fesur Addysg (Cymru) 2011. Mae adran 22 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru ddarparu gwybodaeth a hyfforddiant i lywodraethwyr, yn rhad ac am ddim, ar ystod o faterion sy'n eu galluogi i gyflawni eu swyddogaethau'n effeithiol. Mae hefyd yn datgan y caiff Gweinidogion Cymru nodi cynnwys yr hyfforddiant hwnnw mewn dogfen a gyhoeddir.

Mae'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau hyn yn cyfeirio at ddogfen hyfforddi, a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei defnyddio i gynllunio eu cyrsiau hyfforddiant ar gyfer llywodraethwyr ysgol.

Caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol yn unol ag adran 32(3) o Fesur Addysg (Cymru) 2011.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

O dan Reoliadau 2013, rhaid i bob llywodraethwr sydd newydd ei benodi, ei ail-benodi, ei ethol neu ei ailethol fynychu hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion o fewn blwyddyn i'w benodi neu ei ethol. Byddai peidio â chwblhau'r hyfforddiant yn arwain at waharddiad o chwe mis, ac os na chwblhawyd yr hyfforddiant o fewn y cyfnod atal hwnnw o chwe mis, byddai'r llywodraethwr yn cael ei anghymhwyso yn y pen draw.

Diben y rheoliadau yw diwygio'r diffiniad o "hyfforddiant data perfformiad ysgolion" yn Rheoliad 2 o Reoliadau 2013 fel ei fod yn cyfeirio at y ddogfen hyfforddi ddiweddaraf a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ar gyfer llywodraethwyr ar ddeall data perfformiad ysgolion.

Diwygir rheoliad 2 o Reoliadau 2013 i gyfeirio at y ddogfen hyfforddi ddiwygiedig *Hyfforddiant i lywodraethwyr ysgol yng Nghymru: deall rôl data o ran cefnogi hunanwerthuso a gwella mewn ysgolion* a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ar 18 Tachwedd 2020.

Mae rheoliad 3 yn gwneud darpariaeth sy’n golygu bod unrhyw lywodraethwr sydd wedi cwblhau’r hyfforddiant gan ddefnyddio dogfen hyfforddi ddiwygiedig 2020 cyn i’r Rheoliadau hyn ddod i rym i’w drin fel pe bai yn bodloni’r gofynion hyfforddi ar ddata perfformiad ysgolion o dan Reoliadau 2013.

Mae rheoliad 4 hefyd yn ei gwneud yn glir nad oes rhaid i unrhyw lywodraethwr sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant data gorfodol a nodir o dan Reoliadau 2013 cyn i’r rheoliadau hyn ddod i rym ailadrodd yr hyfforddiant yn unol â’r rheoliadau hyn.

## 5. Ymgynghori

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, gan eu bod yn gwneud mân ddiwygiad technegol i ddiffiniad er mwyn cyfeirio at ddogfen hyfforddi ddiwygiedig. Fodd bynnag, ymgysylltwyd â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys awdurdodau lleol a chafwyd cymorth ac adborth gwerthfawr ganddynt wrth lunio'r ddogfen hyfforddi ddiwygiedig a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020.

## 6. Asesiadau Effaith

Mae'r effaith sy'n deillio o Reoliadau Diwygio 2021 wedi'i hystyried yn llawn.

### Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Rheoliadau hyn. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiad technegol i Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013 ("Rheoliadau 2013") ac yn diweddaru cyfeiriad i ddogfen hyfforddi newydd.

### Y Gymraeg

Nid oes goblygiadau o ran effaith gadarnhaol na negyddol ar y Gymraeg.

### Hawliau Plant

Nid oes goblygiadau o ran effaith gadarnhaol na negyddol ar Hawliau Plant.

### Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Nid oes goblygiadau o ran effaith gadarnhaol na negyddol ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol.

### Preifatrwydd

Nid yw'r diwygiad i'r Rheoliadau hyn yn effeithio ar y darpariaethau yn Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016.

## Asesiad Effaith Cyfiawnder

Er nad oes Asesiad Effaith Cyfiawnder ffurfiol wedi’i gynnal, ni nodwyd effaith wrth ystyried y Rheoliadau hyn.